

“Myfi yw’r winwydden; chwi yw’r canghennau. Y mae’r sawl sydd yn aros ynof fi a minnau ynddo yntau, yn dwyn llawer o ffrwyth, oherwydd ar wahân i mi ni allwch wneud dim.”

(Ioan 15:5)

Dyma un arall o osodiadau mawr yr Arglwydd Iesu sydd yn cychwyn gyda ‘Myfi yw’. Mae yma ddarlun hyfryd o berthynas y Cristion â’i Arglwydd, rhybudd o’r golled a’r gosb o beidio â bod yng Nghrist, ac addewidion hyfryd i’r sawl sydd yn aros ynddo.

‘Yng Nghrist’

Dyma ddarlun hawdd a naturiol o’r berthynas agos rhwng Crist a’r Cristion. Mae’r berthynas yn gweithio dwy ffordd; mae’r gangen yn aros yn y winwydden, ac mae’r winwydden yn y gangen. Mae’r gangen ynghlwm wrth y goeden, ac eto maeth a bwyd y goeden sydd yn cynnal y gangen. Mae’r gwir Cristion yn glynu wrth yr Arglwydd Iesu. Dyna yw pwrpas ei addoliad; boed trwy ddarllen y Gair, gweddïo, gwrando’r Gair, neu foli defosiynol. Mae’n awyddus i sugno maeth ysbrydol o’r Winwydden. Mae’n sylweddoli na all fyw heb sudd ysbrydol, bywiol y Gwaredwr, ac nid yw’n dymuno byw hebddo chwaith.

Mae’r berthynas agos yn cael ei mynegi mewn darlun carwriaethol yn Caniad Solomon: “**Y mae fy nghariad yn eiddo i mi a minnau’n eiddo iddo ef**” (2:16), ac erbyn pennod 6 mae’r drefn wedi newid: “**Yr wyf fi’n eiddo fy nghariad, ac yntau’n eiddof finnau**” (adn.3).

Wrth ddod i adnabod Iesu Grist yn gyntaf, y peth mawr i’r crediniwr yw gwybod fod Iesu yn Geidwad iddo, yn eiddo iddo.

*Dwed dy fod yn eiddo imi,
mewn llythrennau eglur, clir;
tor amheuaeth sych, digysur,
tywyll, dyrys, cyn bo hir. (Pantycelyn)*

Wrth fynd ymlaen yn ei berthynas â’r Arglwydd, fe ddaw i weld mai’r sicrwydd a’r gobaith mwyaf sydd ganddo yw nid ei afael ef ar y Gwaredwr, ond gafael y Gwaredwr arno yntau.

‘Heb Grist’

Os oes darlun hyfryd o agosrwydd perthynas Crist â’r credadun, mae darlun poenus o glir o gyflwr ofnadwy ac ofer y person sydd heb Grist: ni all wneud dim. Dyma osodiad syfrdanol. Gallwn feddwl am fywyd y llofrudd di-gred neu’r person anfoesol, anghrediniol fel bywyd ofer, ond beth am y bardd, y gwyddonydd, yr athronydd sydd heb Grist? Ni all neb wneud dim sydd yn cael

ei gyfrif yn dda ac yn ffrwythlon yng ngolwg Duw heb ddod i berthynas iawn ag Ef trwy adnabod Crist.

Fe gaiff ei daflu i fwrdd. Mae wedi ei gondemnio eisoes (Ioan 3:18), ac mae wedi ei fwrw allan wrth beidio â dod at Grist (Ioan 6:37).

Mae'n gwywo. Mae ei lawenydd yn gwywo gyda threigladau amser a diwedd bywyd. Mae fel **“coed yr hydref, yn ddiffwrth ac wedi eu diwreiddio, ddwywaith yn farw”** (Jwdas 12). Efallai mai'r esiampl fwyaf eglur yw Jwdas Iscariot (Math. 27:3-5).

Casglu ynghyd. Yn Nydd y Farn fe fydd y credinwyr a'r di-gred yn cael eu didoli, eu gwahanu. Cesglir yr anghredinwyr gyda'i gilydd, ond ni chânt unrhyw gysur o fod yng nghwmni ei gilydd chwaith. **“Bydd Mab y Dyn yn anfon ei angylion, a byddant yn casglu allan o'i deyrnas ef bopeth sy'n peri tramgwydd, a'r rhai sy'n gwneud anghyfraith”** (Math. 13:41).

Eu llosgi yn y tân. Dyma gyfeiriad at y tân tragwyddol, sef uffern. Nid yw anghrediniwr yn peidio â bod ar ôl marw, mae'n wynebu'r tywyllwch eithaf o gael ei wahanu oddi wrth y Duw mae wedi ei wrthod, cf. Math. 25:46.

Dwyn ffrwyth

Hoffwn dynnu sylw hefyd at yr addewid hyfryd i'r sawl sydd yn aros yng Nghrist, y bydd ei fywyd yn ffrwythlon, ac yn arbennig yn llawn cariad.

Pwrpas gwinwydden yw dwyn ffrwyth. Pwrpas Crist ar gyfer ei bobl yw bod yn ffrwythlon. Mae gan Dduw gynllun anhygoel ar gyfer Cristnogion, sef dod â nhw i fod yn debyg i Grist. Mae hynny'n golygu rhoi heibio nodweddion yr hen natur bechadurus a sylweddoli nodweddion y natur newydd sydd ganddynt yng Nghrist. Mae Paul yn cymharu gweithredoedd y cnawd â ffrwyth yr Ysbryd yn Galatiaid 5.19-22: **“Y mae gweithredoedd y cnawd yn amlwg, sef puteindra, amhurdeb, anlladrwydd, eilunaddoliaeth, dewiniaeth, cweryla, cynnen, eiddigedd, llidid, ymgiprys, rhwygo, ymbleidid, cenfigennu, meddwi, cyfeddach, a phethau tebyg. Yr wyf yn eich rhybuddio, fel y gwneuthum o'r blaen, na chaiff y rhai sy'n gwneud y fath bethau etifeddu teyrnas Dduw. Ond ffrwyth yr Ysbryd yw cariad, llawenydd, tangnefedd, goddefgarwch, caredigrwydd, daioni, fyddlonddeb, addfwynder, hunanddisgyblaeth.”**

Yna daw'r addewid o aros yng nghariad y Gwaredwr. Dangosodd ei gariad wrth fynd i'r groes dros ei bobl. Ond mae'n addo ein llenwi â'r cariad hwnnw, trwy i ni fod yn ufudd iddo, trwy ei garu, a chadw ei orchmynion.

*Beth sydd imi mwy a wnelwyf
ag eilunod gwael y llawr?*

*Tystio rwyf nad yw eu cwmni
i'w gystadlu â'm Iesu mawr:*

O am aros

yn ei gariad ddyddiau f'oes. (Ann Griffiths).